YSGOL BRYNREFAIL

ARHOLIADAU BLWYDDYN 11

Eleni ymgeisiodd 128 o ddisgyblion eu harholiadau Blwyddyn 11 mewn nifer helaeth o wahanol bynciau gyda sawl bwrdd arholi. Ar fore'r 24ain Awst 2010 daethant oll i'r Ysgol i dderbyn eu canlyniadau,rhai yn ofidus eraill yn frwdfrydig ond yr oll wedi ymgeisio eu gorau yn ystod yr arholiadau, ac ni ellir gofyn am fwy na hynny.

Wedi'r gwenu, sgrechian ac ambell i ddeigryn yr oedd yn amlwg eto eleni bod y disgyblion i gyd wedi dod a chlod mawr iddynt eu hunain a hefyd i'r Ysgol.

Dywedodd y pennaeth, Mr Eifion Jones " Eto eleni rwy'n cael y cyfle i longyfarch y disgyblion oll ar eu llwyddiant yn yr arholiadau . Mae'r llwyddiant hyn yn adlewyrchiad o'r gwaith caled y mae'r disgyblion wedi ymroi yn eu gwaith cwrs ac arholiadau. Carwn hefyd ddiolch i'r staff am eu gwaith dygn a thrylwyr gyda'r holl disgyblion. Bydd rhai disgyblion yn ail ymuno â ni yn y chweched dosbarth tra bydd eraill yn penderfynu mynychu cwrs coleg neu â byd gwaith. Ar ran fy hun, y Corff Llywodraethu a holl staff yr Ysgol, carwn ddymuno'n dda iddynt oll lle bynnag bydd y cam nesaf yn eu bywydau".